# Yr Arolwg Preswylwy *Preswylwyr Cenedlaethol*:

## *O gysyniad i gynnyrch cenedlaethol mewn chwe mis*

Data Cymru

Cynhyrchwyd gan: Data **Cymru**
Cyhoeddwyd: Hydref 2024

029 2090 9500

ymholiadau@data.cymru

www.data.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# Contents


Cyd-destun ..... 1
Nodau'r prosiect ..... 1
Rhoi'r prosiect ar ben y ffordd ..... 2
- Her 1: Sefydlu hygrededd ..... 2
- Her 2: Sicrhau cyllid ..... 3
- Her 3: Sicrhau ymgysylltiad ..... 3
- Her 4: Cyfaddawdu a mireinio'r cynnig ..... 3
- Her 5: Rheoli'r tirlun arolygon sy'n bodoli'n barod ..... 4
- Her 6: Rheoli graddfa ..... 4

Arolwg craidd ..... 5
- Her 7: Diffinio meini prawf cynhwysiant ..... 5
- Her 8: Diogelu data ..... 6
- Her 9: Penodolrwydd versus cymaradwyedd ..... 6

Y dangosfwrdd canlyniadau ..... 7
- Her 10: Technoleg ..... 7
- Her 11: Mynediad ..... 8
- Her 12: Diogeledd data ..... 8
- Her 13: Graddfa ..... 9
- Her 14: Golwg a theimlad ..... 9
- Her 15: Amserlen ..... 10

Modiwlau cwestiynau ychwanegol ..... 10
- Her 16: Penodolrwydd versus cymaradwyedd ..... 11
- Her 17: Cyllido ..... 11

Casgliad ..... 11

Bydd yr astudiaeth achos hon yn:

- Esbonio beth yw'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol;
- Esbonio pam mae'n bwysig; ac
- Amlinellu'r heriau sydd ynghlwm wrth ddatblygu syniad cychwynnol yn gynnyrch cenedlaethol.

## Cyd-destun

Mae deall safbwyntiau preswylwyr yn hanfodol ar gyfer llywodraethu effeithiol. Yng Nghymru, mae'r egwyddor hon mor sylfaenol bod gofyniad cyfreithiol ar gynghorau lleol i ymgysylltu â'u preswylwyr, fel a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae cynghorau lleol yn gwneud hyn bob dydd, er enghraifft trwy gyfryngau cymdeithasol, canolfannau galw, ymgynghoriadau ffurfiol, a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae arolygon preswylwyr yn ffordd bwysig arall o gasglu adborth. Mae rhai cynghorau lleol yn eu defnyddio i ddeall barn preswylwyr am y cyngor a'r ardal leol. Cyn y prosiect hwn, roedd pob arolwg preswylwyr a gynhaliwyd yng Nghymru yn unigryw, a oedd yn ei gwneud yn anodd cymharu canlyniadau o un cyngor i'r llall. Roedd y dull unigol hwn yn arwain at ddyblygu ymdrech, gan fod rhaid i bob cyngor ddylunio, datblygu, cynnal, a dadansoddi eu harolygon eu hun.

Gwelsom ni gyfle i wella cysondeb a chymaradwyedd yr arolygon hyn trwy fabwysiadu dull 'Unwaith i Gymru'.

## Nodau'r prosiect

Nod pennaf y prosiect hwn oedd datblygu arolwg preswylwyr cyson, modwlaidd, dwyieithog, a fyddai'n cael ei gynnig i bob cyngor lleol yng Nghymru. Nodau penodol y prosiect oedd:

- Lleihau costau datblygu a chynnal trwy safoni a chanoli;
- Gwella ansawdd a chymaradwyedd data trwy safoni;
- Cynnig dirnadaeth ddefnyddiadwy trwy ddangosfwrdd canlyniadau; a
- Hyrwyddo sgyrsiau am wella trwy gymharu a meincnodi.

Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi amcan ehangach Tîm Gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu gwelliant a arweinir gan y sector. Bydd yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn helpu cynghorau i gyflawni'r Ddyletswydd Ymgynghori ar gyfer eu hunanasesiadau (yn unol â Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021).

## Rhoi'r prosiect ar ben y ffordd

Er mwyn sefydlu'r prosiect, bu'n rhaid i ni oresgyn chwe her, sef:

### *Her 1: Sefydlu hygrededd*

Mae hygrededd yn werthfawr. Dyma sail i ymddiriedolaeth pan na fydd gweithredoedd wedi cael cyfle i'w sefydlu eto. Gwnaethom dri pheth i sefydlu hygrededd i'r prosiect.

Yn gyntaf, ehangom ein syniad cychwynnol yn weledigaeth glir roedd modd ei chyflenwi. Roedd hyn yn golygu mireinio'n syniadau'n fewnol, a gofyn y cwestiynau canlynol i'n hunain:

- Pwy fyddai'n elwa o'r gwaith hwn a sut?
- Pwy fyddai'n peidio ag elwa o'r gwaith hwn a pham?
- Beth yw costau'r cyfle a'r cyfnewidiadau i gwsmeriaid, rhanddeiliaid, a'n sefydliad ni?

Cydnabuom yn gyflym y byddai angen cefnogaeth genedlaethol arnom i gyflawni'r raddfa roeddem yn ei dymuno. I ehangu cwmpas y prosiect, ennill persbectif perfformiad gwerthfawr, ac ehangu'n cyrraedd, gweithiom mewn partneriaeth â'r Tîm Gwella yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethom gyd-fireinio'r weledigaeth a byddai ein partneriaeth â'r Tîm Gwella yn hwb sylfaenol i lwyddiant y prosiect.

Yn ail, rhoddom brawf ar y cysyniad. Yn 2023, roeddem wedi dylunio, datblygu, a chyflenwi arolwg preswylwyr pwrpasol i Gyngor Bro Morgannwg. Cytunant i rannu'r hawliau eiddo deallusol a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect yn gyfnewid am bris gostyngedig. Dangosodd y bartneriaeth â'r Chyngor hwnnw y gallai heriau technegol a sefydliadol gael eu goresgyn, ac y gallai arolwg hynod lwyddiannus gael ei gynnal. Mewn gwirionedd, y gyfradd ymateb oedd yr uchaf roedd y cyngor wedi'i chyflawni erioed. Cyfrannodd y gwersi o'r prosiect hwn yn uniongyrchol at ein gweledigaeth genedlaethol.

Yn drydydd, ar ôl datblygu'r weledigaeth a phrofi'r cysyniad, ehangom ein cylch trwy ymgysylltu â'r prif randdeiliaid o fewn llywodraeth leol. Yn Rhagfyr 2023, cynhaliom gyfarfod cychwynnol i gyflwyno'r weledigaeth i uwch gydweithwyr dadansoddi, ymgysylltu, a pherfformiad. Am fod diddordeb amlwg ganddynt mewn gwaith ymgysylltu ac arolwg, roedd y cydweithwyr hyn mewn sefyllfa dda i fod yn hyrwyddwyr y prosiect. Canolbwyntiodd ein cyflwyniad ar bynciau sydd o bwys strategol i gynghorau lleol, fel gwerth am arian, cymaradwyedd, a gwella cyflwyniad gwasanaethau trwy ddata gwell. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod llawer o'r cydweithwyr a fynychodd y cyfarfod hwn wedi parhau i ymgysylltu â ni dros y chwe mis dilynol. Roedd eu mewnbwn yn annatod i lwyddiant y prosiect, ac roeddent, ac maent yn dal i fod, yn ganolog wrth hyrwyddo'r prosiect yn eu priod gynghorau.

## *Her 2: Sicrhau cyllid*

Mae cyllid yn holl-bwysig i lwyddiant prosiect. O'r cychwyn roeddem yn deall y byddai'n cyllideb ni'n gyfyngedig. Mae llawer o arolygon cenedlaethol yn costio cannoedd o filoedd o bunnoedd i'w cynnal ac yn fwy byth i'w datblygu. Gwyddem y byddem yn ffodus i sicrhau un degfed o'r arian hwnnw. O ganlyniad, cymerom dri cham allweddol.

Yn gyntaf, gweithiom mewn partneriaeth â Thîm Gwella CLlLC. Yn ogystal â'u harbenigedd ym meysydd perfformiad ac ymgysylltu, roeddent yn gallu darparu cyllid i ddatblygu'r arolwg. Caniataodd y taliad un-tro hwn, er yn fach yn ôl safonau arolygon, i ni gyflenwi'r cynnig craidd, gan gynnwys allgymorth, datblygu, profi, a gweithredu.

Yn ail, cynhaliom dîm bach craidd, cryf ei ffocws. Roedd hyn yn cadw costau staff yn isel ond y gwaith yn ddwys. Sefyllfa a oedd yn fuddiol yn y tymor byr ond na fuasai'n gynaliadwy dros gyfnod hirach.

Yn drydydd, canolbwyntiom ar gyflenwi nifer fach o nodau uchel eu gwerth. Gohiriom bethau 'braf-eu-cael' tan gyfnodau hwyrach y prosiect. Trwy weithio gyda'r cynghorau i nodi a threfnu eu hanghenion yn gategorïau 'rhaid', 'dylid', a 'gellid', roeddem yn gallu blaenoriaethu datblygu a chyflenwi'r gwaith yn unol â hynny.

## *Her 3: Sicrhau ymgysylltiad*

Er mwyn i brosiect ennill cymeradwyaeth gorfforaethol, yn aml mae'n rhaid iddo gael ei ddeall a'i drafod gan amryw o adrannau a meysydd gwasanaeth, yn ogystal â chan aelodau etholedig. I gyflawni hyn, ymgysylltom ni'n gynnar, yn aml, ac mewn ffydd dda. Yn ystod y chwe mis o gychwyn y prosiect i gyflenwi rhan un, cynhaliom 12 cyfarfod cenedlaethol ac is-grŵp, saith cyfarfod â chynghorau lleol unigol, cwrdd â Swyddogion Diogelu Data, a darparu diweddariadau rheolaidd i'r canlynol:

- Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru;
- Rhwydwaith Arweinwyr Data Strategol;
- Rhwydwaith Data Perfformiad Corfforaethol;
- Y rhwydwaith perfformiad; a'r
- Rhwydwaith ymgysylltu.

Yn ogystal â'n hymgysylltu rheolaidd, crëom ddogfen dwy-dudalen a nododd brif nodau, dulliau, a chynnydd y prosiect. Gofynnodd cydweithwyr mewn cynghorau lleol am hyn i ategu trafodaethau mewnol am gefnogi'r cynnig. Profodd y ddogfen yn hynod effeithiol i safoni'r neges a chynorthwyo'n hyrwyddwyr i gyfleu gwybodaeth allweddol yn fewnol.

## *Her 4: Cyfaddawdu a mireinio'r cynnig*

Nid peth hawdd yw rheoli cwmpas newidiol a, chyn belled â phosibl, nid yw'n cael ei argymell. Fodd bynnag, roedd tyndra wrth galon y prosiect fel yr oeddem wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Gyda'n cyllideb gyfyngedig, i gychwyn nid oeddem yn gallu darparu cynnig cwbl ddi-dâl i gynghorau lleol. Yn ein hail gyfarfod cenedlaethol, daeth yn amlwg na fyddai modd i rai cynghorau lleol ymrwymo i'r cynnig nes i hyn gael ei

ddatrys. Gan ddeall bod defnydd yn hanfodol i lwyddiant cynnyrch cenedlaethol, roedd angen i ni ddod o hyd i ateb.

Adolygom ein hymrwymiadau presennol a phenderfynom fod manteision posibl yr Arolwg Cenedlaethol yn drech na manteision prosiectau roedd gennym yn yr arfaeth, gan ad-ddyrannu cyllid yn unol â hynny. Trwy wneud hyn, sicrhaom gostau rhedeg parhaus y prosiect ac roedd modd gwneud y cynnig craidd yn ddi-dâl i bob cyngor lleol.

Fodd bynnag, nid oedd ein cyllideb yn ddiderfyn, ac roedd nifer o dasgau nad oedd modd eu cwmpasu o fewn y cynnig diwygiedig. Roedd y tasgau hyn yn golygu costau a oedd yn anodd eu hamcangyfrif ac a allai amrywio. Er enghraifft, er y byddem yn datblygu arolygon papur ac Easy-Read, nid oeddem yn gallu fforddio argraffu, hybu a choladu'r ffurflenni. Felly, fel rhan o'r cynnig diwygiedig, bu'n rhaid i gynghorau lleol ymgymryd â'r dasg hon yn hytrach nag iddi fod yn rhan o'r cynnig craidd.

Mae angen hyblygrwydd wrth weithio gyda rhanddeiliaid mor niferus ac amrywiol â chynghorau lleol. Trwy addasu ar adegau allweddol yn y prosiect, roeddem yn gallu cynhyrchu cynnyrch gwell ar gyfer cynulleidfa ehangach.

### *Her 5: Rheoli'r tirlun arolygon sy'n bodoli'n barod*

Cyn y prosiect hwn, roedd rhai cynghorau lleol yng Nghymru eisoes yn cynnal eu harolygon preswylwyr eu hun. Roedd y rhain yn amrywio o arolygon cynhwysfawr, hir-sefydledig, i fentrau graddfa fach ac a gyflwynwyd yn fwy diweddar.

Mae dau gyngor lleol y bydd yn anodd iawn iddynt symud i ffwrdd o'u harolygon presennol. Mae eu harolygon nhw yn bodloni angen ychydig yn wahanol i'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, yn hir-sefydledig, a chanddynt hanes cryf. Yng ngoleuni hyn, bu'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gynnig gwerth ychwanegol i'r cynghorau hyn. Ymgysylltom â nhw'n uniongyrchol i edrych ar yr opsiynau. I'r cynghorau hyn, roedd y gallu i gymharu data ledled Cymru'n atyniad mawr. Cytunom felly i adolygu eu data presennol a dod ag adrannau perthnasol o'u set ddata hwy i mewn i'n dangosfwrdd canlyniadau ni.

Mae'r cyfaddawd hwn yn gweithio'n dda i bawb. Nid oes rhaid i'r cynghorau lleol hyn roi arolwg sefydledig a llwyddiannus o'r neilltu. Mae'r prosiect yn ennill dau gwsmer ychwanegol, gan hybu ei gwmpas. Mae'r cynghorau lleol sy'n cymryd rhan ar eu helw, gan fod mwy o ddata ar gael am y gweithgarwch cymharu a meincnodi sydd wrth graidd y cynnig cenedlaethol.

### *Her 6: Rheoli graddfa*

I reoli prosiect mor fawr, cyflenwi cynnyrch yn gyflym, a sicrhau y gallai rhanddeiliaid gyfrannu at y dyluniad, gweithiom ni bob yn gam, a helpodd hefyd i sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddeall yn eang, am fod pob cam y datblygiad yn cynnig cyfle naturiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid. I gyflawni'n hamcanion, rhannom ni'r prosiect yn dair set o ganlyniadau i'w diwallu:

- Arolwg craidd;
- Dangosfwrdd canlyniadau; a
- Modiwlau cwestiynau ychwanegol.

Mae gweddill y ddogfen hon yn trafod yr heriau allweddol a wynebom ar bob un o'r camau hyn.

## Arolwg craidd

Cam cyntaf cyflenwi'r prosiect oedd datblygu set graidd o gwestiynau arolwg. I fod yn sail i gymharu, byddai'n rhaid i'r cwestiynau fod yn safonedig ac yn fandadol. Yn amlwg, roedd heriau ynghlwm wrth gael 22 cyngor lleol i gytuno ar un set o gwestiynau.

### *Her 7: Diffinio meini prawf cynhwysiant*

Wrth ddatblygu'r set cwestiynau craidd, cafodd amryw o alwadau eu gosod arnom. Mae'n her bodloni holl anghenion cynulleidfa fawr ac amrywiol. Felly, bu'n rhaid i ni ddatblygu meini prawf cynhwysiant.

Mae cynghorau lleol yn cyflenwi mwy na 600 o wasanaethau. Yn dibynnu ar ba wasanaethau maent yn fwyaf cyfarwydd â nhw, mae gan breswylwyr lawer o wahanol deimladau am eu cynghorau lleol. I osgoi ymwneud â chymhlethdod cyflenwi gwasanaethau, cytunom yn ein cyfarfod cychwynnol â chynghorau lleol y byddai'r arolwg cenedlaethol yn eistedd ar lefel uwchlaw hynny; y ffocws oedd beth mae dinasyddion yn meddwl yn fras am eu cyngor a'u hardal leol, nid eu barn am wasanaethau penodol. Os bydd angen, gellid defnyddio modiwlau yn y dyfodol i dreiddio i feysydd pwnc yn fanylach. Yn gyntaf bu'n rhaid i ni brofi y byddai dull cenedlaethol yn llwyddo.

Yn ail, cytunom i rannu'r arolwg craidd yn ddau gam: roedd y set gyntaf o gwestiynau craidd i'w datblygu erbyn Gorffennaf 2024, a'r ail set erbyn Gorffennaf 2025. Roedd y dull hwn yn gadael i ni gyflenwi cynnyrch yn gyflym, casglu adborth am y broses, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a fu heb gyfle i gyfrannu at y gwaith cychwynnol.

Yn drydydd, hyd yn oed o fewn eu categori blaenoriaeth uchaf, rhoddodd rhanddeiliaid bwysau gwahanol ar ba fathau o gwestiwn oedd bwysicaf iddynt. Roedd hyn yn golygu na chafodd ein gofynion 'rhaid cael' eu cytuno neu eu blaenoriaethu drwyddi draw. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau am beth i ganolbwyntio arno nawr, beth i ganolbwyntio arno'n nes ymlaen, ac o bosibl beth i beidio byth â chanolbwyntio arno. Gan hynny, datblygom ni set o egwyddorion i arwain penderfyniadau ynghylch pa gwestiynau i'w cynnwys yn yr arolwg. Trwy ddilyn yr egwyddorion, sicrhaom gysondeb a chynnig rhesymeg glir i randdeiliaid a oedd weithiau'n anfodlon. Roedd hyn yn ei gwneud yn haws i randdeiliaid ddeall a derbyn penderfyniadau am beth allai gael ei gynnwys nawr, yn nes ymlaen, neu ddim o gwbl. Yr egwyddorion hyn oedd:

- ***Cymaradwyedd***
  Bu’n rhaid i gwestiynau gynhyrchu data a allai gael ei gymharu ledled Cymru a / neu â ffynonellau allanol.
- ***Angen a chymesuredd***
  Bu’n rhaid i gwestiynau gynhyrchu data a oedd yn gymesur â’r angen.
- ***Gweithrediadwy***
  Bu’n rhaid i gwestiynau gynhyrchu data y gallai cyngor lleol weithredu arno, boed mewn theori yn unig.

### *Her 8: Diogelu data*

Efallai’r ddau risg pennaf i brosiect arolwg yw diffyg ymateb a thoriad data. Mae ymddiriedaeth yn chwarae rôl ganolog yn y ddau risg. Rhaid bod gan ymatebwyr ffydd y bydd eu data’n cael ei gadw’n ddiogel er mwyn ymateb yn rhydd. Trwy weithredu trefn diogelu data gadarn, gallwn wella ymddiriedaeth yn yr arolwg ac, yn gyfnewid, cynyddu cyfraddau ymateb. I gyflawni hyn, gwnaethom dri pheth allweddol.

Yn gyntaf, ystyriom ni ddiogelu data trwy gydol y gwaith dylunio. Golygai hyn feddwl am bob penderfyniad y prosiect trwy lens diogelu data. Trwy fabwysiadu dull o’r fath, roeddem yn gallu gweithio trwy rwystrau diogelu data yn fethodolegol ac adeiladu trefniadau diogelu i mewn i ddyluniad allbynnau o’r cychwyn.

Yn ail, gweithiom yn agos gyda’n tîm diogelu data ni a thîm diogelu data Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgymryd ag Asesiad Effaith Diogelu Data cychwynnol. Hwn oedd sail pob cam dilynol, gan nodi manylion y prosiect, y risgiau a ragwelwyd a rhai posibl i ddata personol, pa mor ddifrifol oedd y rhain, a pha gamau lliniaru a oedd i’w cymryd. Tua dau fis cyn y dyddiad ‘mynd yn fyw’, trefnom gyfarfod gyda’r rhwydwaith Swyddogion Diogelu Data (DPO) i gyflwyno’r canfyddiadau hyn a’r atebion a gynigiwyd. Trwy rannu ein syniadau, nid dim ond canlyniadau’r asesiad, roedd modd i ni adeiladu hygrededd a thawelu meddyliau DPOs am ei gallu i gyflenwi’n effeithiol yn erbyn yr Asesiad Effaith.

Yn drydydd, mae angen rhoi diogelu data ar waith, nid dim ond ei chynnwys mewn dogfennau. Roeddem felly yn ofalus i ehangu’r sgwrs am ddiogelu data tu hwnt i’n cydweithwyr llywodraethu gwybodaeth. Gwnaethom wahodd cydweithwyr o feysydd dadansoddi ac ymgysylltu i gyfarfod y DPOs am fod angen iddynt hwy ddeall hefyd beth allant ac na allant ei wneud gyda’u data pan fo’n bryd ei ddadansoddi. Yn ogystal, adeiladom ni fesurau diogelwch, fel codau lliw, negeseuon awtomeiddiedig, a chyfyngiadau mynediad, i mewn i’r dangosfwrdd canlyniadau i sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o’u hawliau a’u cyfrifoldebau.

### *Her 9: Penodolrwydd versus cymaradwyedd*

Nid oes modd i arolwg cenedlaethol gymryd pob amrywiad lleol i ystyriaeth. O anghenraid, mae angen lefel o gyffredinoli. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol os cymharu yw un o nodau’r pennaf y prosiect; er mwyn i ddata fod yn gymaradwy, rhaid iddo gael ei gasglu ar yr un sail. Gall fod yn heriol dod i gytundeb ar beth ddylai’r sail

hon fod. Wrth ddatblygu'r set gyntaf o gwestiynau craidd, gwnaethom dri pheth i ymdopi â'r her hon.

Yn gyntaf, cyn belled ag sy'n ymarferol, defnyddiom gwestiynau a fodolai'n barod. Mae gan sefydliadau mawr, fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru, gyllidebau mwy o faint a'r gallu i ymgymryd â dadansoddiadau helaeth profi ymhlith defnyddwyr. Gwell sefyll ar ysgwyddau cewri na datblygu rhywbeth o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal, mae defnyddio cwestiynau sy'n bodoli yn golygu bod modd cymharu data a gesglir yng Nghymru â data o ardaloedd eraill lle cynhelir yr un arolwg. Er enghraifft, gall cwestiynau sy'n deillio i'r Cyfrifiad gael eu cymharu ledled Cymru a Lloegr a gall cwestiynau sy'n deillio o Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr gael eu cymharu â data o gynghorau lleol ledled Lloegr.

Yn ail, pan oedd angen golygu i wneud i gwestiynau presennol weddu i gyd-destun Cymru, dibynnom ar arfer a oedd yn bodoli'n barod. Er enghraifft, wrth gymhwyso cwestiynau o arolwg Cymdeithas Llywodraeth Lleol Lloegr i Gymru, bu'n rhaid i ni ddiwygio'r rhestr o wasanaethau sydd ar gael. Yn hytrach na bathu ein rhai ein hun, seiliom y rhestr derfynol ar waith cyhoeddedig CLlLC ac ymgynghori trwy gyfrwng ein cyfarfodydd cenedlaethol. Yn y diwedd, daethom i gyfaddawd trwy ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddedig, profedig, a oedd yn bodoli'n barod yn sail i'r ymagwedd.

Yn drydydd, lle bo angen penodolrwydd, gall cynghorau lleol, am ffi fychan, gomisiynu set o gwestiynau pwrpasol. Cafodd yr hyblygrwydd hwn ei adeiladu i mewn i'r cynnig o'r cychwyn. Symleiddiodd ddatblygiad y set cwestiynau craidd, am fod cynghorau lleol yn gwybod bod ganddynt lwybr clir i ddiwallu anghenion casglu data penodol ac nad oeddem yn deimlo dan bwysau i gynnwys popeth yn yr arolwg 'craidd'.

Wedi goresgyn yr heriau hyn, roedd modd datblygu a chyflenwi cam cyntaf yr arolwg craidd mewn dim ond chwe mis. Aeth y cynnig yn fyw yng Ngorffennaf 2024. Caiff ail gam yr arolwg craidd, sy'n cynnwys ail hanner y cwestiynau craidd, ei ddatblygu a bydd ar gael i fynd yn fyw erbyn Gorffennaf 2025.

## Y dangosfwrdd canlyniadau

O'r cychwyn, ein bwriad oedd datblygu dangosfwrdd canlyniadau, er mwyn bod:

- Data'n cael ei storio mewn un man;
- Data'n cael ei gyrchu a'i gymharu mewn un man; a bod
- Cyflwyniad a negeseuon data yn cael eu safoni.

### *Her 10: Technoleg*

I ddatblygu dangosfwrdd cadarn, dwyieithog, hyblyg ei raddfa, defnyddiom PowerBI. Cynhaliom ni'r dangosfwrdd ar ein hamgylchedd gwe mewnol, diogel, dull sy'n sicrhau:

- Nad oes rhaid i gynghorau lleol drwyddedu eu meddalwedd arolwg neu ddangosfyrddio eu hun;

- Nad oes rhaid i gynghorau lleol gynnal eu data arolwg; ac
- Nad oes rhaid i gynghorau lleol ddatblygu technoleg ddiogelwch i atal defnyddwyr y we rhag gweithio'n ôl i'r gronfa ddata grai.

Serch hynny, roedd yna heriau ynghlwm wrth y dull hwn. Yn gyntaf, bu'n rhaid i ni awtomeiddio'r ffordd mae data'n cael ei borthi i mewn i PowerBI. I gyflawni hyn, defnyddiom ni Ryngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API), dull diogel o drosglwyddo data o un system i'r llall. Cysylltom feddalwedd SmartSurvey yn uniongyrchol i ddangosfwrdd PowerBI. Mae'r biblinell hon yn symleiddio'r broses glanhau ac amlyncu data yn sylweddol. Nid oes angen unrhyw fewnbwn dynol o adeg mae ymatebydd yn cyflwyno ymateb; mae data yn cael ei symud yn awtomatig o ffurflen yr arolwg yr holl ffordd trwodd i'r tablau a siartiau canlyniadau perthnasol. Fodd bynnag, yn enwedig am flwyddyn gyntaf gweithrediadau, penderfynom adeiladu nifer o bwyntiau gwirio â llaw er mwyn sicrhau bod y data yn ddibynadwy ac yn gadarn. Ymhen amser, mae'n debyg y bydd y pwyntiau gwirio hyn yn cael eu hawtomeiddio.

### *Her 11: Mynediad*

Bu'n rhaid i'r dangosfwrdd ganiatáu i gynghorau lleol gael mynediad i'w:

- Data crai;
- Data y rheolir ei ddatgelu; a
- Data meincnodi.

I gyflawni hyn, defnyddiom fynediad ar sail caniatâd. Mae caniatadau'n cael eu dyrannu i ddefnyddwyr o gyngor sy'n gadael iddynt weld eu data crai eu hun a'u data y rheolir ei ddatgelu yn unig. Ond gall pob defnyddiwr, ni waeth am ganiatadau, weld data meincnodi, boed o'u cyngor lleol eu hun neu gyngor arall. Mae'r dull hwn yn caniatáu i gynghorau lleol weld a lawrlwytho eu data crai am ddadansoddiadau manwl ond y sicrhau bod set ddata safonol ar gael i bob defnyddiwr at ddiben cymharu.

Llwyddodd y dull hwn i leihau costau datblygu yn sylweddol trwy adael i ni ddatblygu un allbwn, a gâi ei dafellu yn ôl caniatadau defnyddwyr, yn hytrach nag allbwn gwahanol ar gyfer pob cyngor lleol ac achos defnydd.

### *Her 12: Diogeledd data*

I ategu'r arferion diogeledd data a ddatblygom fel rhan o'r arolwg, cynhwysom dair nodwedd allweddol fel rhan o'r dangosfwrdd lledaenu.

Yn gyntaf, crëom ymwrthodiad data clir a welir ar dudalen hafan y dangosfwrdd data. Mae'n amlinellu sut all ac na all data yn yr amrywiol adrannau gael ei ddefnyddio. Yn bwysig, mae'r ymwrthodiad data hwn hefyd yn pennu disgwyliad y dylai data nad yw'n bersonol gael ei gyhoeddi gan bob cyngor lleol. Bydd dangos i breswylwyr bod eu hymatebion yn cael eu defnyddio yn meithrin ymddiriedaeth yn yr arolwg ac yn gwella cyfraddau ymateb dros amser.

Yn ail, sefydlom negeseuon naid sy'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr pan fyddant yn symud o un drefn diogelu data i un arall. Gan fod y dangosfwrdd yn dal data crai, data y rheolir ei ddatgelu a data meincnodi, mae'r negeseuon hyn yn dweud wrth ddefnyddwyr beth all ac beth na all gael ei wneud gyda'r data ym mhob adran y dangosfwrdd. Er enghraifft, hysbysir defnyddwyr wrth symud o'r adran data crai i'r adran meincnodi.

Yn drydydd, i ategu'r negeseuon naid, dyrannom godau lliw i bob adran. Mae'r ciw gweledol hwn yn helpu ddefnyddwyr i nodi'n gyflym pa drefn diogelu data i'w chymhwyso. Defnyddiom system goleuadau traffig yn arwydd o lefel y gofal mae ei angen wrth weithio gyda data ym mhob un o'r adrannau dilynol:

- Mae adrannau data crai yn defnyddio lliwiau coch.
- Mae adrannau data meincnodi yn defnyddio lliwiau ambr.
- Mae adrannau y rheolir eu datgelu yn defnyddio lliwiau gwyrdd.

### *Her 13: Graddfa*

Rydym yn disgwyl derbyn degau o filoedd o ymatebion arolwg bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd ein set ddata yn tyfu'n aruthrol dros amser. Felly, bu'n rhaid dylunio ateb lledaenu a allai dyfu yn unol â'r anghenion. I gyflawni hyn, gwnaethom ddau beth.

Yn gyntaf, datblygom y biblinell amlyncu data awtomeiddiedig a amlinellwyd yn barod.

Yn ail, mae'r model data a ddefnyddir i ddatblygu'r dangosfwrdd lledaenu yn fodwlaidd ac yn gymharol syml. Mae hyn yn lleihau amser cyfrifiadura ac yn caniatáu am addasiadau cymharol hawdd yn y dyfodol (os bydd angen). Yn gysylltiedig â hyn mae sefydlogrwydd a symlrwydd cymharol y data ei hun. Mae modelau data syml yn mynnu perthnasoedd data sefydlog a syml, y gwnaethom eu diffinio a meddwl amdanynt wrth ddatblygu'r arolwg. Er enghraifft, cadwom nifer cwestiynau'r arolwg sy'n dilyn llwybr i leiafswm, peidio â chynnwys cwestiynau testun agored, a chadw'r arolwg i hyd hydrin.

### *Her 14: Golwg a theimlad*

Mae cynghorau lleol yn gyrff sofran sydd â'u brandio corfforaethol, iaith, a safonau lledaenu eu hun. Am mai nod y prosiect hwn oedd dod â data ynghyd mewn un dangosfwrdd, bu'n rhaid i ni ddiffinio un safon lledaenu. I gyflawni hyn, gwnaethom ddau beth. Yn gyntaf, defnyddiom ein safonau lledaenu corfforaethol ni yn fan cychwyn. Oddi yno, adeiladom hyblygrwydd i mewn i ymdrin â brandio corfforaethol pob cyngor lleol. Mae'r elfennau bychan hyn yn mireinio'r profiad i'r defnyddiwr, gan eu sicrhau eu bod yn edrych ar eu data eu hun ac yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth.

Yn ail, cyn belled â phosibl, rhoddom i ddefnyddwyr y gallu i gael gafael eu hunain ar y data roeddent ei eisiau. Yn hytrach na phennu beth ddylai defnyddwyr ei weld, defnyddiom hidlyddion a thafellwyr i ganiatáu iddynt dorri'r data yn ôl yr angen. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn myd ati i ryngweithio gyda'r data, a'i archwilio, yn hytrach na bod yn ddefnyddwyr goddefol.

### *Her 15: Amserlen*

Roedd datblygu dangosfwrdd yn ddibynnol ar ddatblygiad yr arolwg. Nid oedd modd pennu manyleb y dangosfwrdd yn derfynol nes gwybod pa ddata fyddai'n cael ei gasglu trwy'r arolwg. I ymdrin â hyn, gwnaethom dri pheth.

Yn gyntaf, gwnaethom efelychiad o'r dangosfwrdd gan ddefnyddio PowerPoint, a adawodd i ni ddylunio trefn, gwel-lywio, a golwg a theimlad cyffredinol y dangosfwrdd yn annibynnol ar y set ddata. Gan fanteisio ar wersi prosiect peilot gyda Chyngor Bro Morgannwg, roedd gennym dempled cadarn i weithio ohono. Mireiniom y templed hwn trwy drafodaethau â rhanddeiliaid a sicrhau eu cymeradwyaeth yn gyflym, gan arbed amser gwerthfawr.

Yn ail, canolbwyntiom ar y targedau craidd i'w cyflawni'n gyntaf. Am fod gennym syniad rhesymol o'r hyn roedd ar randdeiliaid ei angen, roedd modd i ni flaenoriaethu canlyniadau'r dangosfwrdd yn 'rhaid', 'dylid', a 'gellid'. Canolbwyntiom ar 'rhaid' yn gyntaf, gan efelychu pensaernïaeth sylfaenol y dangosfwrdd, y gwe-lywio rhwng yr adrannau perthnasol, a gofynion diogelwch. Yna canolbwyntiom ar beth o'r 'dylid', fel adrodd y cyfraddau ymateb am arolygon byw, cyflwyno data cyfres amser, a safonau metadata. Yn olaf, blaenoriaethom 'gellid', fel rhoi codau lliw i adrannau'r dangosfwrdd yn ôl sensitifrwydd y data. Helpodd y dull hwn i ni wneud y defnydd gorau ar ein hadnoddau cyfyngedig ac iteru cynnyrch sylfaenol yn effeithlon i gynnig mwy cyflawn.

Yn drydydd, yn yr un modd â datblygu'r arolwg, defnyddiom dîm bach, hyblyg, a chryf eu ffocws i ddatblygu'r dangosfwrdd. Roedd y tîm yn cynnwys dau aelod o staff craidd, gyda chefnogaeth amrediad o gydweithwyr mewnol ac allanol. Yn holl-bwysig, gwnaethom wirio synwyr iteriadau ein gwaith mewn cyfarfodydd cenedlaethol. Gweithredodd y cyfarfodydd hyn yn bwyntiau gwirio, a adawodd i ni brofi ein cynnydd gyda rhanddeiliaid llywodraeth leol bob dwy neu dair wythnos. Sicrhaodd cyfarfodydd rheolaidd fod ychydig iawn o amser llac yn yr amserlen; byddem yn datblygu rhywbeth, ei ddangos i randdeiliaid yn gyflym, derbyn adborth ar unwaith, a'i weithredu cyn y cyfarfod nesaf. Arweiniodd hyn at gyfres o dasgau cyson, a aeth â ni'r holl ffordd trwodd i gyflenwi'r cynnyrch terfynol. Rhan fawr o lwyddiant y prosiect hwn, felly, yw ymgysylltiad, brwdfrydedd, ac arbenigedd ein cydweithwyr o fewn llywodraeth leol. Chwaraeant rôl hanfodol ac maent yn dal i gyfrannu.

Diolch i'r ymagwedd hon, llwyddom i ddatblygu a chyflenwi'r dangosfwrdd lledaenu yn brydlon yng Ngorffennaf 2024.

## Modiwlau cwestiynau ychwanegol

Bydd trydedd cydran y prosiect, modiwlau cwestiynau ychwanegol, yn caniatáu i setiau cwestiynau penodol a phwrpasol gael eu datblygu a'u haenu ar ben yr arolwg safonedig craidd. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn gadael i gynghorau lleol holi penodolrwyddau lleol ochr yn ochr â'r data craidd a gasglwyd. Yn unol â'n strategaeth o ddatblygu ar sail blaenoriaeth, roeddem am gyflenwi'r arolwg craidd cyn canolbwyntio ar ddatblygiad

cwestiynau ychwanegol. Bydd ail gam yr arolwg craidd yn cael ei gyflenwi erbyn Gorffennaf 2025. Felly, bydd cynghorau lleol yn gallu gwneud cais am ddatblygiad modiwlau cwestiynau ychwanegol o Orffennaf 2025 ymlaen. Yn yr un modd ag unrhyw ddatblygiad, rydym yn disgwyl heriau, fel a amlinellir isod.

### *Her 16: Penodolrwydd versus cymaradwyedd*

Bydd bodloni angen lleol a chynnal cymaradwyedd cenedlaethol yn her arbennig o ran modiwlau cwestiynau ychwanegol.

Cyn belled â phosibl, nid ydym am ddatblygu setiau cwestiynau lluosog ar gyfer yr un pwnc. Er enghraifft, heb resymeg gryf, ni fyddai'n gwneud synwyr datblygu mwy nag un set cwestiynau ychwanegol ar newid hinsawdd. Yr her i ni, felly, yw nodi pynciau sydd o ddiddordeb ar draws llywodraeth leol, blaenoriaethu'r angen, safoni'r dull datblygu ac yn y pen draw, y set cwestiynau. Bydd y dull hwn yn gweithio'n dda ar gyfer pynciau mawr, fel newid hinsawdd. Bydd yn arwain at ddata safonedig (ar draws y cynghorau lleol hynny sy'n dewis defnyddio'r modiwl cwestiynau ychwanegol) ac efallai'n arwain at gostau is i gynghorau, gan fod modd lledaenu'r costau datblygu ar draws mwy ohonynt.

Ni fydd pob cais am fodiwlau cwestiynau ychwanegol ar gyfer pynciau sy'n berthnasol i bawb, fel newid hinsawdd. Am geisiadau sy'n canolbwyntio ar bynciau llai o faint, mwy lleol, bydd angen i ni ystyried yn ofalus ac o bosibl sefydlu meini prawf cynhwysiant i bennu a oes modd ehangu'r modiwl i apelio at nifer uwch o gynghorau lleol. Os ydy hyn yn bosibl, yna dylem ddilyn y trywydd hwn. Os nad ydy hyn yn bosibl, am fod pwnc yn benodol i un cyngor lleol, gallwn weithredu ar y cais, ond bydd angen i'r cyngor lleol dalu'r costau datblygu llawn, gan nad oes modd rhannu'r rhain. Fel ag erioed, bydd yn hanfodol ymgysylltu â chynghorau lleol trwy gyfarfodydd cenedlaethol ychwanegol er mwyn mireinio a siapio'r dull terfynol.

### *Her 17: Cyllido*

Nid yw modiwlau cwestiynau ychwanegol yn cael eu cyllido fel rhan o'r cynnig craidd, am y gall graddfa a chostau amrywio'n aruthrol o gais i gais. Gyda chyllideb gyfyngedig, ni allwn gyfrif am effeithiau posibl o'r fath ar ein cyllid sydd ar gael. Felly, bydd costau datblygu modiwlau cwestiynau ychwanegol yn dod i ran cynghorau lleol eu hunain.

I rai cynghorau, efallai y bydd modd ymdopi â'r dull hwn, tra na fydd i eraill. Ein her ni yw nodi pynciau sydd o berthnasedd ehangach a chanolbwyntio ar y rhain fel ffordd o gyflenwi'r effaith fwyaf am y gost isaf i bob cyngor lleol. Gall cynghorau sydd â'r cyllid ac anghenion penodol tu allan i'r cwmpas hwn wneud cais am fodiwlau ychwanegol, ond bydd rhaid iddynt dalu'r costau'n unigol.

## Casgliad

Mae'r astudiaeth achos hon wedi amlygu rhai o'r heriau a wynebom wrth droi syniad yn realiti mewn dim ond chwe mis. Trwy rannu ein gwersi, ein gobaith yw y gallwch osgoi rhai o'r baglau ac adeiladu ar ein llwyddiannau ni. Dyma'r gwersi craidd:

*Ymgysylltu ag uwch randdeiliaid yn gynnar*

Mae pobl yn rhoi sylw i bethau sydd eisoes yn bwysig iddynt. Trwy gysylltu'ch prosiect â rhywbeth sydd eisoes yn bwysig i'ch rhanddeiliaid, gallwch wella eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth am beth rydych chi'n ei gynnig.

*Sefydlu hygrededd*

Mae hygrededd yn beth gwerthfawr. Nes y bu gennych gyfle i brofi'ch hunan, mae'ch enw da yn eich rhagflaenu. Felly, dangoswch waith perthnasol rydych wedi'i gyflenwi a'ch dealltwriaeth o'r pwnc.

*Gweithio'n gydweithredol trwy ganolbwyntio ar ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid*

Cynhwyswch ddefnyddwyr o'r cychwyn cyntaf. Bydd ganddynt hwy ddealltwriaeth well o beth maent ei angen na chi. Mynnwch wrando, clywed, datblygu, ac iteru – cynhwyswch eich rhanddeiliaid ar bob un o'r pwyntiau gwirio hyn.

*Cyfaddawdu a mireinio'ch cynnig*

Ni fydd eich cynnig y gywir y tro cyntaf. Gweithiwch gyda rhanddeiliaid i'w fireinio. Byddant wedi'u grymuso'n fwy ac yn cyfranogi mwy, a byddwch yn cyflenwi cynnyrch gwell o ganlyniad.

*Lle bo'n bosibl, safoni'r broses ddatblygu*

Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi eglurdeb. Safonwch brosesau, yn arbennig y rhai mewn perthynas â meini prawf cynnwys a hepgor. Mae penderfyniadau sy'n seiliedig ar resymeg ac egwyddorion yn meithrin ymddiriedaeth a hygrededd, tra bod penderfyniadau sy'n seiliedig ar fympwy yn creu dig a drwgdybiaeth.

*Blaenoriaethu a chanolbwyntio ar dasgau 'rhaid gwneud' yna 'dylid gwneud' yna 'gellid gwneud'*

Yn anad dim, cyflenwch eich cynnyrch craidd. Gwell meddu ar Ford Fiesta sy'n gallu mynd â chi i'r gwaith na Rolls Royce heb injan.

*Defnyddio timau bach, pwrpasol i gyflenwi'n hyblyg ac yn effeithlon*

Datblygwch atebion cychwynnol gan ddefnyddio tîm craidd, mireiniwch atebion gan ddefnyddio amrediad ehangach o randdeiliaid. Yn aml mae'n well datblygu cynnyrch cychwynnol gyda thîm bach, arbenigol, a chryf eu cymhelliant. Ni fyddant yn gwneud pob dim yn gywir, ond gallwch wneud cynnydd gyda phrosiect hyd ateb cychwynnol yn effeithlon ac yn effeithiol. Ehangach y tîm datblygu wrth fireinio a pherffeithio'r ateb.

Rydym wedi llwyddo i roi'r egwyddorion craidd hyn ar waith yn effeithiol iawn, gan gyflenwi Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol o fewn chwe mis. Rydym wedi cyrraedd y sefyllfa lle bo gan gynghorau lleol arolwg y gallant eu defnyddio yn y maes a dull o weld eu data, ennyn dealltwriaeth ohono, a chymharu canlyniadau ledled Cymru. Ni

wnaethom hyn ar ein pen ein hunain, ac nid yw'r prosiect wedi'i gwblhau. Yn wir, nid oes dyddiad terfyn gan y prosiect hwn; caiff ei gefnogi am gyfnod amhenodol.

Trwy weithio'n gydweithredol gyda thîm bach, medrus a chryf eu ffocws, rydym wedi dangos y gall cyllideb gymedrol fynd cryn bellter. Ein dull 'Unwaith i Gymru' yw'r allwedd yn aml i gyflenwi gwerth am arian drwy gyfuno doniau ac adnoddau. Mae llwyddiant y prosiect hwn yn atgyfnerthu cryfder y dull hwn. Trwy gadw ein haddewid i ddatblygu Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, rydym wedi lleihau'r rhwystrau i gynnal arolwg preswylwyr yn sylweddol. Bydd hyn yn arwain at:

- fwy o gynghorau nag erioed o'r blaen yn cynnal arolygon preswylwyr, gan gynnwys nifer fawr nad ydynt erioed wedi cynnal un;
- mwy o ddata am foddhad preswylwyr nag erioed o'r blaen; a
- data cymaradwy dros amser ac ar draws Cymru am y tro cyntaf erioed.

Mae rhagor i ddod. Yn 2025, byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno cam dau yr arolwg craidd, yn ogystal ag agor y llyfrau i geisiadau am fodiwlau cwestiynau ychwanegol. Byddwn yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â rhanddeiliaid a mireinio'r cynnig.

Dim ond y dechrau yw hwn!

Am fwy o wybodaeth
Ynglŷn â'r Arolwg Cenedlaethol
o Breswylwyr, cysylltwch â ni:


**www.data.cymru**

ymholiadau@data.cymru

029 2090 9500


Data Cymru